# TAFLEN GWYBODAETH AM Y CWRS

## CBAC Cymdeithaseg UG Lefel 3



**Yn gryno**

Mae'r cwrs hwn yn darparu cyflwyniad ac archwiliad i astudio cymdeithaseg

**Dyma'r cwrs i chi os...**

... Ydych yn chwilfrydig am ddiwylliant

... Ydych eisiau gwell dealltwriaeth o sut mae cymdeithas yn gweithio

... Ydych yn gallu cymell eich hun ac yn gweithio'n galed

**Beth fyddaf yn ei wneud?**

Lefel UG

Uned 1: Mae Caffael Diwylliant yn darparu cyflwyniad craidd i gymdeithaseg. Byddwch yn dysgu diffiniad 'diwylliant' a sut caiff ei drosglwyddo. Rydym hefyd yn astudio'r opsiwn

teuluoedd a diwylliant. Mae hwn yn archwilio pynciau megis priodasau, ysgariad ac amrywiaeth teuluol.

Uned 2: Deall cymdeithas a'r dulliau mae ymholi cymdeithasegol yn ystyried dulliau ymchwil cymdeithasegol, gan edrych ar arbrofion, arolygon ac arsylwadau. Yna rydym yn astudio'r opsiwn cymdeithaseg addysg. Mae hwn yn cynnwys pynciau megis rôl addysg ac effaith dosbarthiadau cymdeithasol, ethnigrwydd a rhywedd ar gyrhaeddiad addysgol.

Lefel U

Uned 3: Pwer a rheolaeth. Yn yr uned hon rydym yn astudio'r opsiwn trosedd a gwyriad, sy'n cynnwys patrymau o ddosbarthiad cymdeithasol, diffiniadau ac ystadegau swyddogol y llywodraeth.

Uned 4: Anghydraddoldeb cymdeithasol a dulliau cymhwysol o ymholiadau cymdeithasegol. Mae'r uned hon yn gofyn i chi ddylunio, cyfiawnhau a gwerthuso darn o ymchwil cymdeithasegol. Byddwch hefyd yn astudio anghydraddoldeb cymdeithasol, yn cynnwys gwahaniaethiad a haeniad cymdeithasol.

Nid oes gwaith cwrs ar y cwrs hwn. Mae dull asesu'r Lefel UG ac U yn cynnwys dau arholiad ysgrifenedig a sefir ar ddiwedd y flwyddyn. Yn gyffredinol mae'r arholiadau'n seiliedig ar draethodau. Pan fyddwch yn ei gwblhau, byddwch yn cyflawni:

Cymdeithaseg Lefel UG
Cymdeithaseg Lefel U
Gweithgareddau sgiliau

Saesneg a Mathemateg

**Beth a ddisgwylir ohonof i?**

I ymrestru, mae angen ichi fod ag o leiaf 5 TGAU Gradd C neu uwch, yn cynnwys Cymraeg Iaith Gyntaf/Saesneg.

Mae ymrwymiad llawn i bresenoldeb yn angenrheidiol, yn ogystal â pharch tuag at eraill, brwdfrydedd tuag at y cwrs a'r gallu i gymell eich hun. Byddwch yn cael eich asesu yn barhaol ac mae disgwyl eich bod yn parhau gyda'ch astudiaethau a'ch gwaith cwrs yn ystod eich amser eich hun.

# TAFLEN GWYBODAETH AM Y CWRS

**Beth sy'n digwydd nesaf?**

Gellir astudio Cymdeithaseg fel cymhwyster UG 'annibynnol' neu ar ôl cwblhau'r Lefel UG yn llwyddiannus, cewch fynd ymlaen i Lefel U.

Addysg Uwch neu gyrsiau/gyrfaoedd sy'n ymwneud â phobl, megis yr heddlu, newyddiaduraeth, rheolaeth, y gyfraith, addysgu a gwaith cymdeithasol.

**Gwybodaeth Ychwanegol**

Bydd angen i chi wneud cyfraniadau ariannol at gost teithio ymweliadau addysgol.